

# **Ramucirumab ar gyfer trin canser gastrig datblygedig neu adenocarcinoma cyffordd gastro-oesoffagaidd a driniwyd yn flaenorol gyda chemotherapi**

Ionawr 2016

## **Beth mae NICE wedi'i ddweud?**

Ni argymhellir ramucirumab (Cyramza) ar gyfer [canser gastrig datblygedig neu adenocarcinoma cyffordd gastro-oesoffagaidd](#) sydd eisoes wedi'i drin gan gemotherapi.

## ***Beth mae hyn yn ei olygu i mi?***

Os ydych eisoes yn cymryd ramucirumab ar gyfer canser gastrig datblygedig neu adenocarcinoma traws gastro-oesoffagaidd, dylech allu parhau i'w gymryd nes eich bod chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn addas rhoi'r gorau i'w gymryd.

## **Pam bod NICE wedi dweud hyn?**

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG. Mae'n rhoi ystyriaeth arbennig i driniaethau a all ymestyn bywydau pobl sy'n agosáu at ddiwedd eu hoes.

Nid yw ramucirumab yn rhoi digon o fudd i gleifion i gyfiawnhau ei gost uchel ac nid yw'n gymwys ar gyfer 'ystyriaeth arbennig', felly ni chafodd ei argymhell.

## **Y cyflyrau a'r driniaeth**

Mae canser gastrig yn enw arall ar ganser y stumog. Mae canser gastrig datblygedig yn golygu ei fod wedi ymledu i feinwe cyfagos, neu wedi ailymddangos mewn rhan arall o'r corff beth amser ar ôl eich triniaeth gyntaf.

Mae adenocarcinoma cyffordd gastro-oesoffagaid yn ganser sy'n datblygu ar y pwynt lle mae eich pibell fwyd (oesoffagws) yn ymuno â'ch stumog.

Mae ramucirumab yn fath o therapi a elwir yn wrthgorff monoclonaid, a allai atal y cancer rhag tyfu.

Gall NHS Choices ([www.nhs.uk](http://www.nhs.uk)) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## **Ffynonellau cyngor a chymorth**

- The Oesophageal Patients Association, 0121 704 9860, [www.opa.org.uk](http://www.opa.org.uk)
- Ymchwil Cancer y DU, 0808 800 4040, [www.cancerresearchuk.org/about-cancer](http://www.cancerresearchuk.org/about-cancer)
- Cymorth Cancer Macmillan, 0808 808 0000, [www.macmillan.org.uk](http://www.macmillan.org.uk)

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1799-0